# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2016

Amser: 08.30 - 08.45

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

# 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i’w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Byddai Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ar Tata Steel.

Cafodd y datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y Cynllun Bathodyn Glas ei dynnu'n ôl ac yn hytrach byddai'n cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu’r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 10 Chwefror 2016**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Waith Athrawon Cyflenwi (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (15 munud)

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi)

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Mynediad at Driniaethau Meddygol (Arloesi).

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Iau 25 Chwefror 2016 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 1 Mawrth 2016.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Biliau Preifat, Biliau Hybrid a Biliau Cydgrynhoi

Ar 8 Rhagfyr 2015, trafododd y Pwyllgor bapur yn cynnig gwelliannau drafft i Reol Sefydlog 26A mewn perthynas â Biliau Preifat, i ehangu ei chwmpas i gynnwys elfennau coll ac i fod yr un fath â gweithdrefn mewn mannau eraill. Roedd y papur hefyd yn amlinellu cynigion i gyflwyno gweithdrefn ar gyfer Biliau Hybrid, nad yw yn y Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd.

Ar ôl ymgynghori â Grwpiau'r Pleidiau, cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog. Nododd y Pwyllgor y byddai drafftiau terfynol y Rheolau Sefydlog newydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes er mwyn cytuno arnynt ar ôl cytundeb ar unrhyw newidiadau i Reol Sefydlog 26 oedd yn deillio o argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 'Deddfu yng Nghymru'.

# 6 Y Pwyllgor Busnes

## 6.1 Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes

Trafododd y Rheolwyr Busnes gopi drafft o Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes a chytunwyd i roi sylwadau i'r Clerc yn uniongyrchol, yn hytrach na thrafod yr adroddiad gyda'u grwpiau. Byddai adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol, a byddai'r adroddiad terfynol yn adlewyrchu unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt yn y cyfamser ar ethol cadeiryddion pwyllgorau.